# Helo!

# Canllaw UMAber

## 2023/2024



Dyma arweiniad bach sy'n cynnwys popeth sydd angen i chi ei wybod ynglŷn ag Undeb y Myfyrwyr, yr hyn rydyn ni’n ei wneud a sut mae modd i chi gyfranogi yn ystod eich cyfnod yn Aberystwyth!

*Lluniau gan un o’n Ffotograffwyr Myfyrwyr

# CROSEO I ABERYSTWYTH !

## Llongyfarchiadau ar sicrhau eich lle yn y Brifysgol ger y lli... Aberystwyth!

Mae dod i'r Brifysgol yn brofiad y byddwch chi'n ei gofio am weddill eich bywyd ac rydyn ni wrth ein bodd yn eich croesawu chi i Aberystwyth a bod yn rhan o'ch taith.

Rydym yn gobeithio eich bod yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaenau, ac y byddwch chi'n caru bywyd myfyrwyr.

Yn ystod y cyfnod cyffrous hwn, hoffen ni eich croesawu chi'n swyddogol fel aelodau diweddaraf UMAber. Daw pob myfyriwr Prifysgol Aberystwyth yn aelod yn awtomatig felly does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth eto.

Mae bod yn aelod o'r Undeb yn cynnig manteision gwych i'ch helpu chi drwy eich cyfnod yn y Brifysgol; P'un a ydych chi am ymuno â chlwb neu gymdeithas (mae gennym dros 100), eisiau datblygu profiadau neu wirfoddoli, neu ddim ond eisiau rhywfaint o gyngor, yna rydyn ni yma i chi!

Rydyn ni am i chi fwynhau bywyd fel myfyrwyr ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau eich bod chi'n hapus, yn iach a bod gennych chi rym i newid pethau, gan adael gyda ffrindiau am oes a dyfodol disglair o'ch blaenau.

Os ydych chi'n ein gweld ni o gwmpas y lle, yna dewch i ddweud helo; byddem ni wrth ein bodd yn cwrdd â chi!

### Helen, Tiffany, Bayanda, Elain & Anna

**Tîm Swyddogion 2023/24**

*Cliciwch ar y lluniau isod i ddarllen amdanynt



**HELEN**

Swyddog Llesiant



**TIFFANY**

Swyddog Cyfleoedd



**BAYANDA**

Llywydd Undeb



**ELAIN**

Swyddog Diwylliant Cymreig & Llywydd UMCA



**ANNA**

Swyddog Materion Academaidd

# PWY YDYN NI

Mudiad aelodaeth elusennol yw Undeb y Myfyrwyr, sy'n golygu bod pobl sydd â diddordeb cyf-fredin yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni eu nodau. Mae gan UMAber filoedd o aelodau (sef chi!) sy'n ethol swyddogion myfyrwyr ac yn gweithio gyda nhw i benderfynu beth ddylen ni ei wneud. Myfyrwyr sydd â'r gair olaf bob tro!

Rydyn ni'n annibynnol o'r Brifysgol ac yn gweithredu fel 'llais' myfyrwyr, wrth ddarparu cymorth a chyfleoedd i'n haelodau yn ystod eu cyfnod yma.

Mae democratiaeth yn rhan fawr o'r Undeb: caiff ei arwain gan fyfyrwyr, gyda chymorth tîm o staff. Rydyn ni'n cynnal etholiadau i gynrychiolwyr ac yn cynnal pob math o ddigwyddiadau sy'n eich galluogi chi i addasu Aber i bob myfyriwr. Bob blwyddyn, byddwch chi'n ethol 5 swyddog llawn amser a thîm o swyddogion gwirfoddoli i arwain eich Undeb.

Mae cannoedd o gyfleoedd gan UMAber yn amrywio o ymuno â chlwb chwaraeon neu gymdeithas, gwirfoddoli neu gynrychioli myfyrwyr eraill yn academaidd ac fel arall. Dyma'r ffordd orau o gwrdd â ffrindiau newydd wrth roi cynnig ar rywbeth newydd. Y rhan anoddaf yw dewis pa rai!




# NEWYDDION DIWEDDARAF

Dilynwch y cyfrifon Cymdeithasol a ewch draw i'n gwefan (cliciwch y cylchoedd isod)

www.

YMUNWCH A GRWP FACEBOOK Y GLAS 2023!

# EIN HADDEWIDION

## CENNAD

Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber **garu bywyd myfyrwyr**

## GWELEDIGAETH

Dylai myfyrwyr Aber fod yn **hapus**, yn **iach** ac wedi'u **grymuso**, gyda **dyfodol disglair** a **chyfeillgarwch sy'n para am oes.**

## ADDEWIDION

Byddwn yn darparu cyfleoedd i chi ddod o hyd i'ch **cymuned Aber**

Byddwn yn **ddylanwad cadarnhaol** dros fyfyrwyr

Byddwn yn rhoi cymorth i chi fod yn **hapus** ac yn **iach**

Byddwn yn helpu i dyfu eich **sgiliau** a'ch **profiadau**

## GWERTHOEDD

Rydyn ni'n cael ein llywio gan fyfyrwyr – Eich llais chi sy'n cyfrif fwyaf

Rydyn ni'n gymuned – Rydyn ni am i chi gyfranogi

Rydyn ni'n gymuned – Rydyn ni am i chi gyfranogi

Rydyn ni'n uchelgeisiol – Rydyn ni'n datblygu ar gyfer y dyfodol

Rydyn ni'n caru'r Gymraeg – Rydyn ni'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

# YMGARTREFU

Diben cyfnod y Glas yw eich helpu i setlo i mewn, gwneud ffrindiau a dod i garu eich cartref newydd!
Yn ystod Wythnos y Glas, mae gennym ni amrywiaeth o bethau ar y gweill i'ch cyflwyno i fywyd yn y Brifysgol. Mae'n llawn-dop o gyfleoedd i gwrdd â phobl newydd a gwneud ffrindiau. Mae ein gweithgareddau a'n digwyddiadau ar gyfer pawb, p'un ai ydych chi'n las-fyfyriwr sydd newydd adael yr ysgol, myfyriwr hyn neu'n fyfyriwr sy'n dychwelyd... mae gennym ni rywbeth i chi i gyd.

## Y PENWYTHNOS CROSEO MAWR

Byddwn ni'n prysur groesawu llawer o wynebau newydd yn ystod y Glas felly p'un ai hwn yw eich tro cyntaf yn Aber neu beidio, cofiwch ein bod ni gerllaw drwy'r amser. Beth am ddysgu iaith neu gael gafael ar fathodyn rhagenw o'r dderbynfa, ac mae croeso i chi ofyn cymaint o gwestiynau â phosib!







## YN CYFLWYNO'R 'A TEAM'

Cadwch lygad allan am y crysau-t coch os bydd angen gwybodaeth a chymorth cyfeillgar.

## CYNIGION I FYFYRWYR

Un o'r heriau mwyaf y mae pob glasfyfyriwr yn ei hwynebu yw cadw at gyllideb. Dyna pam mae'n bwysig manteisio ar yr holl gynigion gwych sydd ar gael! Cadwch lygad ar y dudalen hon am gynigion lleol a chenedlaethol i'ch helpu chi i wneud arbedion wrth i chi wario



## ANGEN CYNGOR? Gofynnwch!

Rydym yn rhedeg gwasanaeth gynghori cyfeillgar am ddim i fyfyrwyr o Undeb y Myfyrwyr.

Prifysgol | Tai | Cyllid | Iechyd & Llesiant

# BETH SY'N DIGWYDD

## FFAIR Y GLAS

Mae'n debyg mai Ffair yr UM yw digwyddiad mwyaf y flwyddyn. Yn digwydd dros 3 diwrnod eleni! Dydd Llun 25ain - Dydd Mercher 27ain Medi - mewn pabell fawr ger Undeb y Myfyrwyr.
Bydd pob diwrnod yn gymysgedd o WAHANOL fusnesau, clybiau chwaraeon, cymdeithasau a mudiadau lleol.

Helo!







## DIGWYDDIADAU HELOABER

Gellir gweld y rhestr ddiweddaraf o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y Glas, **yma!**
Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau Cwrdd a Chyfarch, gweithgareddau Clybiau a Chymdeithasau a'r gweithgareddau a'r digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan Wasanaethau Masnachol y Brifysgol.





















# Gwasanaeth Cynghori **UMAber**

## Gwasanaeth cynghori cyfeillgar, cyfrinachol ac am ddim, wedi'i leoli yn adeilad Undeb y Myfyrwyr.

Y Brifysgol | Cyflogaeth
Llesiant | Tai & Llety | Arian

**umaber.co.uk/cyngor**

**Cyswllt:** 01970 621712 **E-bost:** undeb.cyngor@aber.ac.uk

**'Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr'**

# CYFLEOEDD

TîmAber ydi teulu chwaraeon a chymdeithasau UMAber.
Gall clybiau chwaraeon a'r cymdeithasau wneud eich profiad myfyriwr yn un bythgofiadwy!

## CHWARAEON

Bydd bod yn rhan o glwb chwaraeon yn Aber-ystwyth wneud eich profiad chi fel myfyriwr yn un bythgofiadwy.

P'un a'ch bod chi am fod yn gystadleuol neu dim ond eisiau mwynhau, gyda 50 a mwy o wahanol glybiau chwaraeon, o Rygbi'r Gynghrair i Ffrisbi Eithaf, mae gennym ni rywbeth at ddant pawb.

A-Z o'r clybiau chwaraeon!





## CYMDEITHASAU

O gelf i gerddoriaeth roc, mae gennym ni bron 100 o gymdeithasau dan arweiniad myfyrwyr i chi roi cynnig arnynt. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gymdeithasau sy'n ymwneud ag academia, crefydd, gwleidyddiaeth, y cyfryngau, perfformio a hamdden, ac os nad oes modd i chi weld eich diddordeb penodol, cewch sefydlu eich cymdeithas eich hun YMA. Mae cymdeithasau'n ffordd wych o gwrdd â phobl sydd â'r un diddordebau â chi, creu ffrindiau, rhoi cynnig ar rywbeth newydd a chyfoethogi eich profiad yn y Brifysgol.

A-Z o'r Cymdeithasau!

# GWIRFODDOLI

Ydych chi am wneud gwahaniaeth eleni?
Cymerwch gipolwg ar ein cyfleoedd gwirfoddoli a helpwch achos sy'n bwysig i chi.
Gallwch wirfoddoli yn y gymuned. Neu gallwch wirfoddoli o'ch cartref yn Aber.
Os ydych chi'n gwneud UNRHYW WIRFODDOLI yn ystod eich amser fel myfyriwr, gallwch hefyd weithio tuag at ein Gwobr Aber!
Mae Gwobr Aber yn wobr carreg-filltir flynyddol sy'n cydnabod ymrwymiad myfyrwyr sy'n gwirfoddoli. Gallwch weithio tuag at gyflawni un o'n Gwobrau Efydd, Arian neu Aur.

Gallwch ganfod mwy yma!





# CYNRYCHIOLWYR ACADEMAIDD

Aynrychiolwyr Academaidd yw myfyrwyr sydd wedi cael eu hethol gan eu cyd-fyfyrwyr ar eu cwrs neu yn eu hadran i ddarparu adborth ar farn y rheiny maen nhw'n eu cynrychioli i'w Hadran, y Brifysgol ac undeb y Myfyrwyr.

Maen nhw'n gweithio gyda'u Cynrychiolydd Cyfadran a'r Swyddog Materion Academaidd i gynrychioli myfyrwyr drwy fynychu Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr.

# CYNRYCHIOLWYR ACADEMAIDD

Bob blwyddyn mae tîm o swyddogion gwirfoddol yn cynrychioli amrywiaeth helaeth o fuddiannau a chefndiroedd myfyrwyr. Maen nhw'n cael eu hethol bob blwyddyn i fod yn llais eu cyfoedion, ymgyrchu dros newid cadarnhaol a thrafod sut bydd cynlluniau a pholisïau'n effeithio ar fyfyrwyr.

Gallwch ganfod mwy yma!



# DEWCH YN **GYNRYCHIOLYDD ACADEMAIDD AR GYFER** 2022/23

**Dyma eich cyfle i godi eich llais er mwyn helpu i wneud eich addysg y gorau y gall fod!**

Eich rôl fydd:

- Cysylltu â myfyrwyr ar eich cwrs
- Casglu adborth am eu profiad academaidd
- Codi'r adborth hwn gyda staff yr adran neu Undeb y Myfyrwyr
- Helpu i wneud gwelliannau sydd o fudd i fyfyrwyr

**Gallwch ganfod mwy yma!**




# ETHOLIADAU

Chi sy'n arwain...
Y myfyrwyr sydd wrth y llyw ym mhob agwedd yr Undeb Myfyrwyr. Bob blwyddyn rydym yn defnyddio etholiadau democrataidd i helpu penderfynnu pwy ddylai siarad a gweithio ar eich rhan chi ar ystod o bynciau tra byddwch yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n cynnwys Swyddogion Llawn Amser a Swyddogion Gwirfoddol.
Gall pob myfyriwr sydd wedi cofrestru bleidleisio yn yr etholiadau dros unrhyw rôl sy'n berthnasol iddynt.






# DEMOCRATIAETH

Mae'r parthau, Y Senedd a'n polisïau ac ymgyrchoedd i gyd yn cyfrannu at lais y myfyrwyr sy'n gweithio'n gyson i greu newid cadarnhaol.
Rydyn ni'n rhoi'r gair olaf i fyfyrwyr bob tro felly, os ydych chi'n credu y dylai'r Undeb neu'r Brifysgol wneud rhywbeth yn wahanol, neu hyd yn oed os oes gennych chi syniad am brosiect neu ymgyrch newydd, rhowch wybod i ni!



# Ymunwch â Chlwb Chwaraeon / Cymdeithas

neu ddechreuwch un newydd!



umaber.co.uk/timaber/

TîmABERTeam




*Adverts like this one help fund AberSU

# Mind Aberystwyth

01970 626225
www.mindaberystwyth.org
info@mindaberystwyth.org

## *Croeso / Welcome to Aberystwyth*

Elusen iechyd meddwl a llesiant sy'n darparu gwasanaethau ar draws Ceredigion yw Mind Aberystwyth.

Rydyn ni'n cynnig cymorth iechyd meddwl a hyrwyddo llesiant trwy ein gweithgareddau grŵp, sesiynau galw heibio, gwasanaethau cymorth a hyfforddiant mewn gwydnwch cymunedol.

Mind Aberystwyth is a mental health and wellbeing charity delivering services across Ceredigion.

We provide mental health support and promote wellbeing through our activity groups, drop-in sessions, support services and community resilience training.


# ABERYSTWYTH COMEDY FESTIVAL

29TH SEPTEMBER - 1ST OCTOBER 2023

29AIN MEDI - 1AF HYDREF 2023

90+ SHOWS
LIVE CAPTIONING
STREET PERFORMANCES

EXPLORE OUR PROGRAMME



90+ SIOE
PERFFORMIADAU Â CHAPSIYNAU
SIDEAU STRYD

ARCHWILIWICH EIN RHAGLEN

# DOLENNI DEFNYDDIOL
























@UMAberSU

01970 621700

@UMAberSU

union@aber.ac.uk

@UMAberSU

www. umaber.co.uk

@UMAberSU

www. abersu.co.uk